

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
RHONDDA CYNON TAF
COUNTY BOROUGH COUNCIL**

**Bydd cyfarfod o'r CABINET yn cael ei gynnal ym Mhencadlys y Cyngor,
Y Pafiliynau, Cwm Clydach (Siambr y Cyngor)**

fore IAU, 27^{ain} AWST, 2015 am 10.30.

Dolen gyswllt: Mrs Emma Wilkins (Rhif ffôn: 01443 424062)

Os bydd cynghorwyr neu aelodau o'r cyhoedd yn dymuno cael cyfle i annerch y Cabinet am unrhyw fater ar yr agenda isod, rhaid iddyn nhw ofyn am gael gwneud hynny erbyn 5pm ar 25 AWST 2015. Nodwch mai'r Cadeirydd biau'r penderfyniad i ganiatáu'r cais. Bydd pob cais yn cael ei ystyried ar sail y materion sy'n cael eu trafod ar yr agenda, buddiant y cyhoedd/y cynghorydd ynglŷn â phob mater, a'r gofynion o ran y materion sydd i'w trafod ar y diwrnod hwnnw. I wneud cais, ffoniwch Swyddfa'r Cabinet ar 01443-424062 neu anfonwch e-bost i Cabinet@rctcbc.gov.uk

MATERION I'W TRAFOD

1 DATGAN BUDDIANT

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Gynghorwyr, yn unol â gofynion Côd Ymddygiad y Cyngor.

Noder:

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, mae **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

2 GWASANAETHAU HAMDDEN: - GWELLA CYFLEUSTERAU ALLWEDDOL

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant sy'n ceisio barn Aelodau ynglŷn â'r cynnig i wella cyfleusterau ffitrwydd mewn tair canolfan hamdden.

Tudalennau 1 - 6

3 RhCT GYDA'N GILYDD: TROSGLWYDDO ASED AU A GWASANAETHAU I'R GYMUNED

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng-flaen sy'n rhoi argymhellion y Grŵp Llywio Cyswllt â'r Sector Gwirfoddol i Aelodau mewn perthynas â'r broses RhCT Gyda'n Gilydd.

Tudalennau 7 - 12

4 CYNNIG I NEWID GWASANAETH – OPSIYNAU AR GYFER CWTOGI COSTAU YNNI GOLEUADAU'R STRYDOEDD

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng-flaen sy'n cynnwys opsiynau ar gyfer newid gwasanaeth ynghylch cwtogi costau referniw goleuadau strydoedd trwy drosi'r unedau golau presennol i unedau arbed ynni mwy effeithlon, deuodau allyrru golau (LED).

Tudalennau 13 - 32

5 Materion brys

Ystyried unrhyw faterion brys y mae'r Cadeirydd yn eu gweld yn briodol.



Cyfarwyddwr Gwasanaeth ac Ysgrifennydd i'r Cabinet